



**UNITED UTILITIES**

**CYNLLUN SYCHDER STATUDOL TERFYNOL  
CRYNODEB ANNHECHNEGOL**



**2008**

## **CRYNODEB ANNHECHNEGOL**

### **Cefndir**

Cynhyrchwyd y Cynllun Sychder Statudol Terfynol hwn gan United Utilities Water CCC (UU), yn dilyn cyfnod o ymgynghoriad cyhoeddus, er mwyn darparu datganiad cynhwysfawr o'r gweithredoedd y bydd UU yn ystyried eu rhoi ar waith yn ystod cyfnodau o sychder er mwyn amddiffyn cyflenwadau dŵr hanfodol ar gyfer ei gwsmeriaid a lleihau'r effaith ar yr amgylchedd. Mae diogelwch a chyfanrwydd ein cyflenwadau dŵr yn bwysig iawn i'n cwsmeriaid.

Yn dilyn y sychder difrifol yng ngogledd Lloegr ym 1995/96, gosododd y Llywodraeth ystod o gamau i'r diwydiant dŵr eu cymryd, gan gynnwys yr angen i gwmnïau dŵr ddangos bod ganddynt gynlluniau sychder digonol wrth gefn. Yn unol â'r gofyniad o dan Adran 39B(7) o Ddeddf Diwydiant Dŵr 1991, mae dyletswydd statudol bellach ar gwmnïau dŵr i gytuno ar gynlluniau sychder sydd ar gael yn gyhoeddus yn sgil ymgynghori ag Asiantaeth yr Amgylchedd (AA), yr Ysgrifenydd Gwladol, yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr ac ymgynghoreion statudol eraill.

Mae UU wedi llunio Cynllun Sychder manwl ers 1999 ac mae hwn wedi cael ei ddiweddarau'n flynyddol, gan adeiladu ar y profiadau a gafwyd wrth gynnal cyflenwadau dŵr hanfodol yn ystod sychder 1995/96 a sychder mwy diweddar 2003. Cafodd ein cynllun ei ddiwygio a'i ddiweddarau yn ystod 2005-2007 yn unol â *Chanllaw i Gynlluniau Sychder Cwmnïau Dŵr Fersiwn 2.0* yr AA (AA, 2005).

Mae'n bwysig iawn cydnabod nad yw sychder yn dilyn unrhyw batrwm arbennig. Gall sychder ddigwydd unrhyw adeg o'r flwyddyn ac arddangos gwahanol nodweddion. Mae ein cynllun yn nodi'r ystod o ddewisiadau sydd ar gael i UU yn ystod sychder, a'r prosesau a'r amserlenni y mae eu hangen i'w gweithredu. Mae'r cynllun yn gymwys i unrhyw amgylchiadau o sychder, gan gynnwys amgylchiadau sy'n fwy llym nag a gofnodwyd o'r blaen.

### **Lefel Gwasanaeth UU**


Mae UU yn cyflenwi dŵr i ryw 6.7 miliwn o bobl a 0.2 miliwn o gwsmeriaid busnes yn Cumbria, Swydd Gaerhirfryn, Manceinion Fwyaf, Glannau Mersi, y rhan fwyaf o Swydd Caer a rhan fechan o Swydd Derby. Mae Ffigur 1 yn dangos y pedwar parth adnoddau a ddiffiniwyd i ranbarth UU:

- Parth Adnoddau Integredig
- Parth Adnoddau Gorllewin Cumbria
- Parth Adnoddau Caerliwelydd
- Parth Adnoddau Gogledd Eden

Yn ein Cynllun Adnoddau Dŵr (Mawrth 2004), gwnaethom ddatgan mai isafbwynt y lefel gwasanaeth rydym yn ei ffafrio ar gyfer amllder gwahardd pibelli dŵr a thrwydded sychder fyddai unwaith ar y mwyaf ym mhob 20 mlynedd, ac na chyflwynir gorchmynion sychder i gyfyngu ar alw'n amlach nag unwaith ym mhob 35 mlynedd. Mae ein lefel gwasanaeth yn

cydbwyso effaith sychder ar gwsmeriaid ac ar yr amgylchedd. Nid oes toriadau ar rota na safbibellau i ddogni cyflenwadau hanfodol yn yr arfaeth. Darperir y lefel gwasanaeth hon bellach i bob cwsmer yn dilyn gwelliannau rhwng 2000 a 2005 i Barthau Adnoddau Caerliwelydd a Gorllewin Cumbria i ddatrys diffygion cyflenwad a galw.

**Ffigur 1**  
**Parthau adnoddau dŵr United Utilities**



Petai'r sychder gwaethaf a gofnodwyd yn digwydd eto, ni fydd ein cronfeydd dŵr yn gwacáu ond byddent yn gostwng i lefelau isel iawn. Fodd bynnag, cyn cyrraedd y lefelau isel iawn hyn, bydd angen gweithredu i ddiogelu cyflenwadau dŵr *rhag ofn bod y sychder yn fwy difrifol nag a gofnodwyd eisoes*. O ganlyniad, bydd angen gweithredu gwaharddiad ar bibelli dŵr a thrwyddedau/gorchmynion sychder cyn cyrraedd lefelau isaf oll y cronfeydd dŵr i ddiogelu cyflenwadau dŵr yn erbyn y risg hwn. Nid ydym yn bwriadu cyflwyno toriadau ar rota a safbibellau yn y sefyllfa hon. Mae UU yn llwyr gefnogi barn y Llywodraeth bod toriadau ar rota neu safbibellau yn hollol annerbyniol hyd yn oed mewn sefyllfa o sychder eithriadol.

## **Rheoli Sychder UU**

Rheolir ein holl adnoddau dŵr yn unol â pholisïau gweithredu a rheolau arolygu i ddarparu cyflenwad dŵr diogel i'n cwsmeriaid. Cynhelir monitro hydrolegol a hydroddaearegol parhaus ac asesiadau rheolaidd o ddiogelwch cyflenwadau hefyd, sy'n cynnig sail i nodi'r angen am unrhyw fesurau rheoli sychder, a'u hamseriad.

Mae rheolaeth cyflenwadau dŵr yn ystod amgylchiadau o sychder yn cynrychioli cyfres o gamau sy'n adlewyrchu difrifoldeb, graddfa ddaearyddol a chyflymder datblygiad y sychder. Yn gyntaf bydd UU yn cymryd camau sydd o dan ei reolaeth ei hun cyn cychwyn camau sy'n galw am bwerau cyfreithiol arbennig.


Mae UU wedi nodi 4 sbardun sy'n gweithdrefnu'n bwyntiau penderfynu ar gyfer camau rheoli sychder. Mae natur y sbardunau'n amrywio i bob un o'r parthau adnoddau, ac mae natur y camau rheoli sychder a fydd yn cael eu hystyried hefyd yn dibynnu ar y sefyllfa gyffredinol.

Gellir cymhwyso camau sychder naill ai ar draws y cwmni, yn ôl y parth adnoddau neu i dargedu ardal ddaearyddol benodol yn ôl natur y sychder sy'n bodoli y pryd hwnnw. Mae'r cynllun sychder hwn yn cynnwys ystod o ddewisiadau rheoli sychder posibl sydd ar gael i UU, er enghraifft cychwyn defnyddio ffynonellau dŵr wrth gefn, trwyddedau sychder a gwaharddiadau ar bibelli dŵr. Mae tabl 1 yn crynhoi 4 sbardun sychder UU a'r ystod o gamau sy'n gysylltiedig â phob un. Mae Ffigur 2 yn dangos enghraifft o gromlin sbardun sychder yn seiliedig ar storio mewn cronfeydd dŵr (fel % storfa net) yn erbyn amser. Pwyntiau penderfynu a thrafod yw'r sbardunau - nid ydynt o reidrwydd yn golygu y bydd yr holl gamau a restrir yn cael eu cymryd mewn gwirionedd.

**Tabl 1**  
**Sbardunau Sychder Generig UU a Gweithredoedd Cysylltiedig**

	<b>Camau Gweithredol</b>	<b>Camau Cyfathrebu â Chwsmeriaid</b>	<b>Camau Rheoli</b>
<b>Gweithredu Arferol</b>	Monitro rheoli dŵr yn barhaus. Gweithredu ffynonellau dŵr yn unol â rheolau arolygu a gweithredu	Cynnal cysylltiadau arferol â chwsmeriaid i hyrwyddo arbed dŵr, gwasanaeth trwsio gollyngiadau am ddim UU a <i>LeakLine</i>	Cyfarfodydd misol parhaus ynghylch adnoddau dŵr gyda'r AA
<b>Sbardun 1</b> <b>Paratoi Cynllun Gweithredu Sychder a Chynllun Cyfathrebu</b>	Aildrefnu ffynonellau dŵr yn y parthau i ategu cyflenwadau dŵr a diogelu storfeydd cronfeydd dŵr yn y rhannau o'r rhanbarth yr effeithir arnynt fwyaf	Paratoi Cynllun Cyfathrebu Sychder Dwysáu cysylltiadau â'r cyfryngau (e.e. cynyddu dosbarthiad datganiadau i'r wasg)	Paratoi Cynllun Gweithredu Sychder gyda'r AA Sefydlu Grŵp Cyswllt Sychder UU/AA Cysylltu â Natural England
<b>Sbardun 2</b> <b>Cychwyn ar Weithredoedd Sychder</b>	Dwyn ffynonellau dŵr wrth gefn i mewn i'r cyflenwad. Adolygu gweithredoedd canfod a thrwsio gollyngiadau dŵr. Gwella adnoddau rheoli gollyngiadau dŵr yn yr ardaloedd hynny lle ystyrir y gellid cyflawni'r arbedion mwyaf mewn galw	Gwella cysylltiadau â chwsmeriaid ymhellach (e.e. Sioeau Teithiol gan UU a dosbarthu dyfeisiadau Saver Flush) i ddarparu diweddariadau rheolaidd ar sefyllfa'r adnoddau dŵr ac atgyfnerthu cyngor am arbed dŵr	Ystyried opsiynau am bwerau sychder (e.e. gwahardd pibelli dŵr, gorchmynion defnyddiau penodedig, trwyddedau sychder) a thrafod gyda'r AA ac NE Trafodaethau a'r AA, NE a DEFRA i gytuno ar gamau monitro amgylcheddol a lliniaru Ystyried yr effaith ar safleoedd penodol gan gynnwys Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE), Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) a Pharciau Cenedlaethol
<b>Sbardun 3</b> <b>Dwysáu Gweithredoedd Sychder</b>	Dwyn yr holl ffynonellau dŵr trwyddedig sydd ar gael i mewn i'r cyflenwad	Gwella cysylltiadau â chwsmeriaid ymhellach (e.e. hysbysebion mewn papurau newydd) i esbonio difrifoldeb sefyllfa'r cyflenwad a'r camau sy'n cael eu cymryd i ddiogelu cyflenwadau dŵr hanfodol + cheisio cydweithrediad wrth leiafu'r defnydd diangen o ddŵr	Sefydlu cysylltiadau rhwng UU a'r AA ar lefel Cyfarwyddwyr Paratoi a gwneud cais am bwerau sychder e.e. trwyddedau sychder a gorchmynion defnyddiau penodedig
<b>Sbardun 4</b> <b>Pwerau Sychder yn Eu Lle</b>	Ystyried y defnydd o ffynonellau nas comisynwyd	Gwella cysylltiadau â chwsmeriaid ymhellach (e.e. hysbysebion teledu a radio) i esbonio'r rhesymau y tu ôl i'r pwerau sychder a'r angen i gydymffurfio â chyfyngiadau ar ddefnydd dŵr	Pwerau sychder yn eu lle e.e. gwahardd pibelli dŵr, gorchmynion defnyddiau penodedig, trwyddedau sychder

## Ffigur 2 Enghraifft o gromlin sbardun sychder



### Gweithredoedd y Parth Adnoddau

Mae'r sbardunau sychder a'r camau rheoli sychder cysylltiedig a amlinellwyd uchod yn gymwys i bob un o 4 parth adnoddau dŵr UU. Parth Adnoddau Gorllewin Cumbria yw'r un mwyaf agored i ddioddef sychder ac mae'r camau rheoli'n debygol o orfod cael eu gweithredu dros gyfnod byrrach o amser nag yng ngweddill y rhanbarth. Mae'r gwelliannau diweddar i'r cyflenwad yn golygu nad yw'n debygol y bydd angen camau helaeth i reoli sychder ym Mharth Adnoddau Caerliwelydd.

I bob parth adnoddau, mae UU wedi nodi ceisiadau posibl am drwyddedau sychder ynghyd â'r mesurau ymgynghori a lliniaru y byddai eu hangen petai'r cynigion yn cael eu rhoi ar waith. Fodd bynnag, gan ddibynnu ar natur a maint y sychder, efallai bydd angen ceisiadau am drwyddedau pellach nas nodwyd yn Nhabl 2. Caiff y ceisiadau posibl eu crynhoi yn Nhabl 2 isod:

**Tabl 2**  
**Ceisiadau Posibl am Drwydded Sychder gan UU**

Ffynhonnell Ddŵr	Parth Integredig Trwyddedau Sychder Posibl
Cronfeydd Dŵr Longdendale	Gostwng y llif digolledu o 45.5 i 22.5 neu 15.0 MI/d
Cronfeydd Dŵr Rivington – White Coppice	Gostwng y llif digolledu o 4.9 i 2.0 MI/d
Cronfeydd Dŵr Rivington – Brinscall Brook	Gostwng y llif digolledu o 3.9 i 2.0 MI/d
Cronfa Ddŵr Jumbles	Gostwng y llif digolledu o 19.9 i 12.0 neu 6.0 MI/d
Cronfa Ddŵr Delph	Gostwng y llif digolledu o 3.7 i 1.0 MI/d
Cronfa Ddŵr Dovestone	Gostwng y llif digolledu o 15.9 i 10.0 neu 5.0 MI/d
Cronfa Ddŵr Fynwy	Gostwng y llif digolledu o 45.0 i 25.0 MI/d

Dyfrdyllau Broughton A	Llacio'r amod sy'n gysylltiedig â dyfrdwl arsylwi T74
Afon Lune - Tynnu dŵr LCUS	Gostwng y llif penodedig o 365.0 i 200 MI/d
Lake Windermere	Gostwng yr amodau llif lle na chaniateir echdynnu Caniatáu tynnu lefel y llyn i lawr (hyd at uchafbwynt o 0.76m islaw brig y gored) Llacio cyfyngiad y drwydded echdynnu dreigl 12-mis
Ullswater	Gostwng yr amodau llif lle na chaniateir echdynnu Adeiladu cored allfa dros dro i godi lefel y llyn o hyd at 0.15m Llacio cyfyngiad y drwydded echdynnu dreigl 12-mis
<b>Ffynhonnell Ddŵr</b>	<b>Parth Gorllewin Cumbria Trwyddedau Sychder Posibl</b>
Dyfrdyllau Scales	Cynyddu terfyn blynyddol y drwydded i alluogi parhad graddfa ddyddiol uwch o echdynnu (hyd at derfyn y drwydded o 6 MI/d)
Ennerdale Water	Gostwng llifoedd digolledu a/neu ganiatáu tynnu lefel y llyn i lawr y tu hwnt i derfyn Cytundeb Gweithredu Ennerdale o 1.35m islaw brig y gored i derfyn y drwydded echdynnu sef 1.70m islaw brig y gored
Crummock Water	Gostwng llifoedd digolledu a/neu ganiatáu cynnydd yn yr echdynnu dyddiol y tu hwnt i derfyn y drwydded. Caniatáu pwmpio llifoedd echdynnu a digolledu
<b>Ffynhonnell Ddŵr</b>	<b>Parth Gogledd Eden Trwyddedau Sychder Posibl</b>
Dyfrdyllau Bowscar Dyfrdyllau Gamblesby Dyfrdyllau Cliburn Dyfrdyllau Tarnwood	Cynyddu terfyn y drwydded flynyddol i alluogi uchafswm y raddfa echdynnu ddyddiol i barhau gan fod y terfyn blynyddol yn cyfyngu ar echdynnu

Gan amlaf, mae'r dewisiadau hyn wedi cael eu gweithredu yn ystod cyfnodau blaenorol o sychder a dangoswyd eu bod yn hyfyw heb effeithio'n arwyddocaol ar yr amgylchedd. Nod UU yw lleiafu nifer y ceisiadau am drwyddedau sychder y mae eu hangen o gymharu â sychderau blaenorol drwy ganolbwyntio ar y dewisiadau sy'n cynnig y budd mwyaf i'r parth adnoddau wrth leiafu'r effeithiau amgylcheddol. Ni fyddai'r holl gamau'n cael eu gweithredu i'r raddfa lawn a ddangosir o reidrwydd, ac mae'n bosibl na fydd gofyn am rai o'r camau. Mae cromliniau'r sbardunau sychder yn nodi pryd y dylid gwneud cais am bob dewis penodol, a phryd y dylid ei weithredu. Nid oes sicrwydd y byddai'r un o'r trwyddedau posibl yn cael eu cymeradwyo. Byddai angen i'r AA asesu pob cais gan gymryd yr amgylchiadau cyffredinol mewn sefyllfa benodol o sychder i ystyriaeth.

Yn ogystal â thrwyddedau sychder, bydd UU yn ystyried defnyddio gwaharddiadau ar bibelli dŵr a gorchmynion sychder defnyddiau rhagnodedig i reoli'r galw am ddŵr. Byddwn hefyd yn adolygu gweithgareddau canfod a thrwsio gollyngiadau, ac yn targedu adnoddau rheoli gollyngiadau yn yr ardaloedd hynny lle gellir cyflawni'r arbedion mwyaf o ran galw.

## Cyfathrebu a Threfniadau Cysylltu

Mae UU yn gyfrifol am gyfathrebu â'i gwsmeriaid yn ystod sychder ac am benderfynu ar gynnwys ac amseriad cyfathrebiadau am sychder a'r cyfryngau i'w defnyddio. Bydd UU yn hysbysu ei gwsmeriaid yn llawn am y camau sy'n cael eu cymryd gan y cwmni i ddiogelu cyflenwadau dŵr, yr angen am unrhyw gyfyngiadau ar ddefnydd dŵr, ac am statws cyfredol adnoddau dŵr. Bydd UU hefyd yn hyrwyddo cyngor am effeithlonrwydd dŵr i'w gwsmeriaid yn weithgar.

Mae UU a Rhanbarth Gogledd-orllewin Asiantaeth yr Amgylchedd yn cynnal cyfarfodydd

cyswllt rheolaidd i drafod materion adnoddau dŵr ar amrywiol lefelau o reolaeth. Mewn sefyllfaoedd o sychder, byddai Grŵp Cyswllt Sychder yn cael ei ffurfio i roi llinell gyfathrebu glir ar faterion rheoli sychder rhwng UU a'r AA. Bydd UU hefyd yn sicrhau bod trefniadau cyswllt ynghylch sychder yn cael eu gwneud gyda rhanbarthau Canolbarth Lloegr a gogledd-ddwyrain yr AA ac AA Cymru, fel y bo'n briodol. O dan rai amgylchiadau, mae'n bosibl y bydd angen cyfarfodydd gyda mwy nag un o ranbarthau'r AA i drafod y defnydd mwyaf effeithiol o adnoddau dŵr cyfyngedig.

Bydd UU yn sicrhau ei fod yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Natural England, Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr, y Cyngor Defnyddwyr Dŵr, Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA), Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed (DWI), awdurdodau lleol (gan gynnwys eu timau cynllunio mewn argyfwng) a chyrff eraill sydd â diddordeb, ynghyd â gwybodaeth am y camau a gymerir ac sy'n cael eu hystyried. Mewn perthynas â thrwyddedau/gorchmynion sychder penodol, bydd UU yn ceisio rhoi cymaint o rybudd ag sy'n ymarferol bosibl ymlaen llaw i bob parti yr effeithir arno ac i drafod y cynigion ac unrhyw fesurau lliniaru.

Yng nghyd-destun Awdurdodau Lleol, yr Awdurdodau Iechyd Strategol a'r Asiantaeth Amddiffyn Iechyd, bydd sianeli cyfathrebu arferol UU yn cael eu cynnal a darperir sesiynau briffio ar y sefyllfa sychder fel y bo angen. Byddai hyn yn arbennig o wir pe bai cais yn cael ei gyflwyno am Orchymyn Sychder i wahardd defnyddio dŵr yn ddi-angen. Fodd bynnag, nid yw UU yn bwriadu defnyddio toriadau rota na safbibelli yn ystod cyfnod o sychder a chynlluniwyd ein mesurau sychder yn benodol i amddiffyn defnydd hanfodol o ddŵr. Bydd UU yn sicrhau bod yr Awdurdodau/Asiantaethau Iechyd, Awdurdodau Lleol a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn cael yr holl wybodaeth am ein gweithredoedd yn ystod cyfnod o sychder, yn arbennig er mwyn cynnig sicrwydd y bydd y cyflenwadau hanfodol yn cael eu cynnal.

## **Ymgynghori ar Gynllun Sychder Statudol Drafft UU**

Ar 31 Mawrth 2006 cyflwynwyd Cynllun Sychder Statudol Drafft UU i'r Ysgrifennydd Gwladol a'i anfon i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Ar 18 Ebrill 2006 cadarnhaodd yr Ysgrifennydd Gwladol y gellid cyhoeddi'r Cynllun Sychder Statudol Drafft.

Ar 10 Mai 2006 anfonwyd y cynllun drafft drwy'r e-bost at 76 ymgynghorydd o'r cyrff canlynol (fel y nodir yn Rheoliadau'r Cynllun Sychder 2005):

- Yr Ysgrifennydd Gwladol dros yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig
- Asiantaeth yr Amgylchedd
- Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr
- Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr
- Awdurdodau cynllunio lleol
- Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol (Ardal y Llynnoedd, Y Peak District ac Eryri)
- Natural England
- Asiantaeth Ddatblygu Ranbarthol y Gogledd-Orllewin
- Y Comisiwn Cefn Gwlad (Countryside Agency)
- Y Comisiwn Adeiladau Hanesyddol a Henebion i Loegr (English Heritage)
- Llywodraeth Cynulliad Cymru
- Cyngor Cefn Gwlad Cymru

- Awdurdodau mordwyo

Parhaodd y cyfnod ymgynghori â'r cyhoedd am gyfnod o 7 wythnos o 12 Mai i 30 Mehefin 2006.

Ar 10 Mai 2006 cyhoeddwyd y cynllun drafft a gymeradwywyd ar ein gwefan ac roedd copi caled ar gael i'r cyhoedd ei weld yn ein swyddfa yn Dawson House trwy gydol cyfnod yr ymgynghori.

Ar 10 Mai 2006 anfonwyd y ddogfen grynodedb gweithredol, ynghyd â chyswllt i'r wefan er mwyn galluogi'r rheiny â diddordeb i lawr lwytho'r dogfennau eraill, at 47 ymgynghorydd anstatudol yn cynrychioli amryw o sefydliadau cenedlaethol a lleol gyda diddordebau mewn materion amgylcheddol, iechyd, pysgodfeydd, cadwraeth, mynediad, hamdden, bywyd gwyllt, afonydd a thwristiaeth.

Cyhoeddwyd datganiad i'r wasg gan swyddfa'r wasg UU ar 19 Mai 2006 er mwyn i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r ffaith fod UU wedi cyhoeddi ei Gynllun Sychder Statudol Drafft ar gyfer ymgynghori.

### **Ymatebion i'r Ymgynghori ar Gynllun Sychder Statudol Drafft UU**

Daeth y cyfnod ymgynghori â'r cyhoedd i ben ar 30 Mehefin 2006. Yn gyfan gwbl derbyniwyd 17 ymateb cynrychioliadol. Ystyriwyd yr ymatebion i'r ymgynghori yn ofalus gan UU ac ar 17 Awst 2006 anfonodd UU Ddatganiad o Ymateb atynt. Rhoddwyd y Datganiad o Ymateb ar wefan UU a'i anfon at bob un o'r 17 a ymatebodd. Mae'r Datganiad o Ymateb hwn yn rhoi manylion ar sylwadau'r ymgynghorwyr gan esbonio sut byddai UU yn cymryd y rhain i ystyriaeth wrth gynhyrchu ei Gynllun Sychder Statudol Terfynol.

### **Paratoi Cynllun Sychder Statudol Terfynol UU**

Ers cyhoeddi'r Datganiad o Ymateb, mae UU wedi ymgorffori sylwadau'r ymgynghorwyr yn y Cynllun Sychder Statudol Terfynol hwn. Yn benodol, adolygwyd sbardunau sychder Haweswater er mwyn gwahaniaethu rhwng y sbardunau gweithredu gwaharddiad ar bibelli dŵr a gweithredu trwyddedau sychder. Mae adran newydd ar ollyngiadau dŵr (Adran 5.6) wedi'i chynnwys i ddarparu gwybodaeth bellach ar y gweithredoedd gollyngiadau dŵr ychwanegol y byddai UU yn ymgymryd â nhw yn ystod cyfnod o sychder. Yn ogystal, mae gwybodaeth am effaith sychder ar ansawdd dŵr wedi'i chynnwys ynghyd â gwybodaeth am sut mae UU yn mynd i'r afael ag ymyriadau i'r cyflenwad dŵr (beth bynnag fo'r rheswm). Ychwanegwyd adran newydd hefyd yn cynnwys gwybodaeth am ddyletswyddau statudol yn perthyn i safleoedd amgylcheddol penodol (Adran 4.4). Mae manylion pellach am natur gwaharddiadau ar bibelli dŵr a gorchmynion defnyddiau penodedig wedi'u cynnwys yn yr atodiadau.

Ar 26 Gorffennaf 2007, cyhoeddodd Yr Ysgrifennydd Gwladol Gyfarwyddyd Cynllun Sychder United Utilities Water PLC 2007 a ddaeth yn weithredol ar 31 Gorffennaf 2007. Mae hwn yn rhestru gwybodaeth bellach y dylid ei chynnwys yn y Cynllun Sychder Statudol Terfynol hwn a arweiniodd at ychwanegu manylion ychwanegol i'n cytundebau/trefniadau ag ymgymerwyr dŵr eraill lle'r ydym yn rhannu ffynonellau dŵr (Adran 6.6), ynghyd â gwybodaeth am y dulliau rydym yn eu defnyddio i ragfynegi effaith bosibl sychder ar ein

system gyflenwad dŵr (Adran 5.2 ac Atodiadau 10 ac 11). Mae'r cynnydd ar yr astudiaethau amgylcheddol ar gyfer safleoedd trwyddedau sychder wedi ei ddiweddarau. Cyflwynwyd y Cynllun Sychder Statudol Terfynol i'r Ysgrifennydd Gwladol, a'i anfon i Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd, ar 11 Medi 2007. Ar 3 Rhagfyr 2007 derbyniom gadarnhad gan yr Ysgrifennydd Gwladol i barhau â chyhoeddi ein Cynllun Sychder Statudol Terfynol ac rydym yn bwriadu gwneud hyn yn gynnar yn 2008.